

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

### **COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 2il o DACHWEDD 2021 - CYFARFOD RHITHIOL**

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd C.Larsen (Is-gadeirydd – yn y Gadair)  
Y Cyngorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, E.Lovgreen,  
W.Tudor Owen, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

---

#### **1. Ymddiheuriadau**

Y Cyngorwyr K.Jones, B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry, K.Richards, S.Sage,  
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyngorydd M.Sarnacki

#### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

**20/10/2021** Noson Wobrwyo Cystadleuaeth Gerddi, Adeilad yr Institiwt

**22/10/2021** Seremoni Cyflwyno Medal BEM, Castell Caernarfon

**31/10/2021** Lansiad Ymgyrch Popi yr RBLR (Royal British Legion Riders)

#### **3. Datgan Buddiant Personol**

Y Cyngorydd D.L.Jones – eitem 15

Y Cyngorydd E.Lovgreen – eitem 15

Y Cyngorydd C.Williams – eitem 15

#### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)**

##### **HWB**

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan Eleanor Watkins o HWB yn holi i weld os yw'r Cyngor eisiau unrhyw gefnogaeth ariannol gan HWB o ran trefniadau'r Nadolig eleni.

Bydd yn trafod hyn ymhellach efo Eleanor gan fod unrhyw gyfraniad i'w groesawu, a bydd hi yn cyfleu hyn i aelodau HWB yn y cyfarfod o'r Bwrdd ar y 3ydd o Dachwedd.

#### **5. Cofnodion**

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 5ed o Hydref 2021

**Penderfynwyd (unfrydol):**

- (1) **Derbyn fel rhai cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol yn eitem 2 - “Mayor’s Announcements” yn y fersiwn Saesneg fel ei fod yn darllen:**

**“26/09/2021 Car Rally, North Wales Walled Towns Friendship Circle”**

ii. Cyngor Llawn, 14eg o Hydref 2021

**Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).**

**Penderfynwyd cau allan y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (unfrydol).**

iii. Pwyllgor Personél, 19eg o Hydref 2021

**Penderfynwyd (unfrydol):**

**(1) Derbyn fel rhai cywir.**

**(2) Gwahodd y wasg a’r cyhoedd yn ôl i mewn i’r cyfarfod.**

## **6.Cyfrifon**

**Penderfynwyd derbyn a’u talu (unfrydol).**

## **7.Cysoni Cyfrifon**

**Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).**

## **8. Ymgynghoriad Ar-Lein: Dyfodol Ffordd Liniaru Fewnol Caernarfon**

Cyflwynwyd e-bost anfonwyd at aelodau o ran yr uchod. Roedd angen ymateb buan iawn i’r ymgynghoriad, ac roedd mwy o wybodaeth a holiadur ar-lein i’w weld yn:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Dyfodol-y-Ffordd-Liniaru-Fewnol-Caernarfon.aspx>

**Penderfynwyd (unfrydol):**

**(1) Bod yr aelodau’n dymuno rhoi ymateb ar ran y Cyngor Llawn.**

**(2) Mai’r opsiwn mwyaf ffafriol oedd opsiwn 2B, sef Diddymu’r Drosffordd a chreu Cylchfan newydd. Byddai hyn yn rhyddhau fwy o dir gwyrdd.**

**(3) Y dylid trafod y maes parcio efo Cyngor Gwynedd yn y dyfodol agos.**

## **9. Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2022**

Cyflwynwyd e-bost efo manylion y linc, y llythyr a'r wybodaeth gefndirol.

Roedd yr e-bost yn nodi bod Adran 13 yn ymwneud yn benodol â Chynghorau Tref a Chymuned, a bod penderfyniadau drafft ar gyfer 2022 - 2023 yn cynnwys:

- Grwpiau Cynghorau Tref a Chymuned – sefydlwyd pum grŵp yn seiliedig ar faint etholaeth y cyngor, gan ddisodli'r tri grŵp presennol.
- Parhau i roi'r taliad gorfodol o £150 fel cyfraniad at gostau a threuliau ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned, ac eithrio'r cynghorau yng Ngrŵp 5 lle bydd yn ddewisol.
- Cyflwyno lwfans presenoldeb sy'n ddewisol ar gyfer pob Cyngor.

Gofynnwyd am sylwadau erbyn y 26ain o Dachwedd.

**Penderfynwyd y dylid anfon sylwadau yn mynegi pryder o ran creu gwahaniaeth rhwng etholaethau o wahanol faint a hefyd y byddai aelodau'n gorfod pleidleisio os oeddynt am dderbyn cydnabyddiaeth ai peidio (unfrydol).**

## **10. Rhybuddion o Gynnig**

Cyflwynwyd y Rhybuddion o Gynnig canlynol:

### **(1) Y Cynghorydd E.R.Hughes (tynnwyd enw'r Cynghorydd Stuart Sage yn ôl gan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod):**

"Buasem yn hoffi rhoi cynnig i gael pris ar gyfer carped newydd i Adeilad yr Institiwt. Mae yn flêr iawn yn llawer o lefydd."

**Penderfynwyd (unfrydol):**

- (1) Pan fod y Grŵp Tasg a Gorffen sydd wedi ei sefydlu yn edrych ar y gwaith yn Adeilad yr Institiwt, y dylai'r gwaith gynnwys edrych ar gyflwr y carpedi.**
- (2) Y dylid edrych ar gyflwr y carped yn yr holl adeilad a blaenoriaethu'r rhai oedd wir angen sylw.**
- (3) Gofyn i'r Clerc ymgynnull y Grŵp Tasg a Gorffen yn y dyfodol agos er mwyn trafod y materion hyn.**

### **(2) Y Cynghorydd Ann Hopcyn**

"Wrth drafod dyfodol traphont y dref, mae'r Cyngor Tref yn galw ar Gyngor Gwynedd i ystyried llif traffig canol y dref yn ei chyfanrwydd, ar yr un pryd."

Cefndir:

1. Mae'r system bresennol yn ymateb i anghenion y ffordd liniaru fewnol.
2. Wrth i oes honno ddod i ben, amserol fyddai ystyried anghenion newydd yn sgil dyfodiad ffordd osgoi Caernarfon - Bontnewydd.

3. Ar hyn o bryd, pan fo cerbydau'n gyrru i mewn i ganol dref, y stryd gyntaf iddynt yrru ar ei hyd, yw'r orsaf bysys; nid y lle mwyaf deniadol nepell o safle treftadaeth byd.
4. Onid yw Ffordd Bangor yn cynnig argraff fwy ffafriol o'r dref?
5. Nid wyf yn dychmygu y bydd ail-gyflunio'r system drafnidiaeth yn fater hawdd, ond gellid manteisio ar y sefyllfa bresennol i wella'r ddarpariaeth yn gyfan gwbl.

Nodwyd fod gwahanol opsiynau i'w hystyried, er enghraifft gwell defnydd o'r Maes.

**Penderfynwyd (unfrydol):**

- (1) Gofyn i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ddweud fod y mater wedi ei drafod ac i wahodd y swyddog priodol i'r cyfarfod nesaf.
- (2) Datgan y dylai'r Cyngor Tref fod yn greiddiol i'r holl drafodaethau o'r cychwyn.

**11. Cwestiynau**

Dim.

**12. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd**

**Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972 (unfrydol).**

**13. O Law i Law**

Cyflwynwyd adroddiad diweddariad ar O Law i Law, a elwir yn adroddiad "Cwmni Dre" o hyn allan.

Nodwyd:

**(I) Bwrdd CaerAilGyfle**

Na fu i'r Bwrdd gyfarfod ers y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Llawn.

**(II) Y Cyfansoddiad - Diweddariad**

- (1) Bod fersiwn ddrafft o'r templed Cyfansoddiad eisoes wedi ei rannu efo aelodau - Atodiad A.
- (2) Y cododd rhai cynghorwyr gwestiynau am y cyfansoddiad ac am berthynas y cwmni hyd braich gyda'r Cyngor Tref. Roedd yn bwysig bod pob cynghorydd yn deall wrth benderfynu ar y mater yma mai endid ar wahân i'r Cyngor Tref byddai'r CIO neu "cwmni hyd braich".
- (3) Mai'r ymddiriedolwyr fydd yn cael eu hethol fydd yn gyfrifol am benderfyniadau'r CIO. Bydd dyletswydd arnynt i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer y CIO ac nad yw hyn o reidrwydd yn mynd

i gyd-fynd â beth fyddai'r Cyngor Tref yn ei benderfynu. Roedd y cyfansoddiad yn adlewyrchu hyn ac wedi ei selio ar ddogfen templed gan y comisiwn elusennol.

- (4) Ei bod yn bwysig wrth benodi'r ymddiriedolwyr cychwynol i gofio y byddent yn gyfrifol am y CIO yn ei chyfanrwydd a bod prosiect o Law i Law yn un rhan yn unig o waith y CIO. Roedd yn bwysig hefyd cofio, gan fod y CIO yn endid ar wahân a dan reolaeth yr ymddiriedolwyr, mai'r ymddiriedolwyr yna ac nid y Cyngor Tref fydd yn dewis eu holynyddion ac unrhyw ymddiriedolwyr newydd.

### **(III) Ceisiadau Ariannol – Diweddariad - Gronfa Drosglwyddo Ewropeaidd 2021 - 2022: Mynd i'r Afael â Thlodi Bwyd a Mynd i'r Afael ag Ansicrwydd Bwyd**

- (1) Roedd swm y grant yn £59,300 a rhaid oedd ei wario erbyn diwedd Mawrth 2022. Erbyn hyn roedd y Clerc wedi gwneud y trefniadau i hawlio cyfran o'r arian hwnnw yn ôl, sef swm o £20,640. Fodd bynnag nid oedd yr arian wedi ei dderbyn hyd yma.
- (2) Fel rhan o'r grant roedd cyllid ar gyfer Rheolwr Prosiect, ac roedd y Pwyllgor Personél wedi cael hawl dirprwyedig i ddelio efo'r mater. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd yr hysbyseb ar gyfer y swydd wedi mynd allan, gyda dyddiad cau o ddydd Gwener y 29ain o Hydref.
- (3) Roedd cais am dendr wedi mynd allan ar gyfer gwaith ar y gegin, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor Tref, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Gan hynny roedd Chris Summers yn edrych i mewn i wahanol opsiynau.

### **(IV) Cais i gofrestru fel CIO - Diweddariad**

- (1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu fel a ganlyn yn ei gyfarfod diwethaf:
  - **Y dylai'r CIO gael 4 o gynghorydd fel Ymddiriedolwyr, gyda'r gweddill o'r aelodau annibynnol i'w hethol pan fydd y Cyfansoddiad mewn lle.**
  - **Na ddylai'r Dirprwy Clerc fod yn un o'r Ymddiriedolwyr gan ei fod yn gyflogedig i'r Cyngor Tref. Gan hynny y dylid gofyn i'r Clerc ofyn drwy e-bost pwy ddylai'r 2 Ymddiriedolwyr fod ymysg yr aelodau (ar wahân i'r Cynghorwyr Eleri Lovgreen a Cai Larsen – sydd eisoes yn Ymddiriedolwyr).**

Roedd y Clerc wedi cysylltu efo aelodau ac wedi cael 3 enw fel Ymddiriedolwr (yn ychwanegol i'r Cynghorwyr Cai Larsen ac Eleri Lovgreen), sef y Cynghorwyr Ann Hopcyn, Dawn Jones a Cemlyn Williams. Gan hynny roedd angen i'r Cyngor Llawn benderfynu ar ba 4 aelod ddylai fod yn Ymddiriedolwyr.

Bod angen i bob swyddog fod yn ymddiriedolwr ac felly byddai'n rhaid i dri o'r pedwar lenwi'r swyddi - Cadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd.

- **Y dylai'r holl waith papur terfynol o ran sefydlu'r CIO gael ei gyflwyno gerbron y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 2il o Dachwedd.**
- (2) Bod y gwaith papur o ran cofrestru fel CIO ("Charitable Incorporated Organisation") efo'r adroddiad, a gofynnwyd i'r aelodau dderbyn hwn fel ei fod yn gallu cael ei anfon ymlaen o fewn yr amserlen i anfon cais i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.
  - (3) Gyda hyn i gyd roedd angen ystyried nifer yr ymddiriedolwyr a'u cysylltiad efo'r Cyngor.

#### **(V) Sefyllfa Gyllidol**

Roedd y sefyllfa gyllidol wedi ei amgau yn Atodiad C.

**Penderfynwyd (unfrydol):**

- (1) **Mai'r 4 Ymddiriedolwyr ar gyfer y CIO fydd:**
  - Y Cynghorydd Cai Larsen – Cadeirydd (3 Mlynedd);**
  - Y Cynghorydd E.Lovgreen – Ysgrifennydd (3 Mlynedd);**
  - Y Cynghorydd D.L.Jones – Trysorydd (2 Flynedd);**
  - Y Cynghorydd C.Williams (2 Flynedd);**
- (2) **Y dylid diwygio cyfeiriad at y Clerc yn y cais i gofrestru fel CIO ("Charitable Incorporated Organisation") i ddarllen "Other" yn hytrach na "Trustee", gan nad oedd yn Ymddiriedolwr.**
- (3) **Derbyn y gwaith papur o ran y cyfansoddiad a hefyd o ran y cais i gofrestru fel CIO (gyda'r diwygiadau a nodir uchod), fel y gellir ei anfon ymlaen o fewn yr amserlen i anfon cais i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.**
- (4) **Diolch i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc am eu gwaith ar y mater.**

#### **14. Rhaglen Waith y Clerc**

Cyflwynwyd y rhan o raglen waith y Clerc sy'n deillio o gyfarfodydd.

**Penderfynwyd croesawu'r adroddiad, a gofyn i'r Clerc ddod ag adroddiad misol gerbron y Cyngor o ran y gweithredoedd oedd wedi eu cyflawni, a'r materion oedd yn sefyll, ers y cyfarfod blaenorol (unfrydol).**

#### **15. Undeb Credyd y Cambrian**

Cyflwynwyd e-bost a dderbyniwyd gan Ann Francis o'r Undeb Credyd.

Roedd yr e-bost yn nodi:

- (1) Cyn COVID roedd y swyddfa yng Nghaernarfon ond ar agor un diwrnod yr wythnos a bu iddo gau yn y Cyfnod Clo ym mis Mawrth 2020 pan oedd yn rhaid rhoi staff ar furlough a symud popeth ar-lein.
- (2) Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn cynnwys gwerthu Swyddfa Caernarfon gyda'r bwriad o edrych ar gynnig y gwasanaethau o hybiau cymunedol neu swyddfeydd a gefnogir gan wirfoddolwyr.

- (3) Bod yr adroddiad hwn yn hollol gyfrinachol ac nad yw'r adeilad ar y farchnad eto.
- (4) Eu bod yn chwilio am unrhyw gefnogaeth neu argymhellion gan y Cyngor Tref er mwyn gallu cadw rhywfaint o bresenoldeb yng Nghaernarfon neu'r ardaloedd cyfagos.

**Penderfynwyd:**

- (1) Datgan fod y Cyngor Tref yn awyddus iawn i gynnig cefnogaeth, a gofyn i'r Clerc sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn trafod opsiynau efo Undeb Credyd y Cambrian, ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.
- (2) Gwahodd y Wasg a'r Cyhoedd yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd .....

Dyddiad .....